Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ffoaduriaid yn byw yng Nghymru

Arolwg o sgiliau, profiadau a rhwystrau i gynhwysiant

Crynodeb Gweithredol

Medi 2009

Wales Strategic Migration Partnership
Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru
Asylum Seekers, Refugees and Migrants
Ceiswyr Lloches, Ffoaduriaid a Mudwyr

Welsh Refugee Council
Cyngor Ffoaduriaid Cymru

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Ffoaduriaid yn byw yng Nghymru:

Arolwg o sgiliau, profiadau a rhwystrau i gynhwysiant

Crynodeb Gweithredol

Heaven Crawley a Tina Crimes
Canolfan Ymchwil ar Bolisi Mewnfudo
Prifysgol Abertawe

Am ragor o gopïau, cysylltwch â:
Canolfan Ymchwil ar Bolisi Mewnfudo
Adeilad Wallace
Prifysgol Abertawe
Parc Singelton
Abertawe
SA2 8PP
E-bost: migration@swansea.ac.uk

75% wedi'i ailgylchu recycled

ISBN 978 0 7504 5384 4
© Heaven Crawley 2009
CMK-22-04-045(368)
E4060910

Crynodeb gweithredol

Cefndir a chyd-destun polisi

1. Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gefndir, amgylchiadau ac anghenion ffoaduriaid (a ddiffinnir fel y rhai sy'n cael caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig) sy'n byw yng Nghymru. Diddwythwyd llawer o'r hyn a wyddom o wybodaeth am geiswyr lloches yn byw yng Nghymru, y bydd cyfran ohonynt (yn amrywio yn ôl amgylchiadau unigol, dyddiad cyrraedd a gwlad tarddiad) yn derbyn caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig ac yn dewis parhau i fyw yng Nghymru.

2. Tan 2001, lefel gymharol isel o geiswyr lloches a ffoaduriaid oedd yn dewis setlo yng Nghymru o gymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Cynyddodd y nifer o geiswyr lloches a ffoaduriaid pan sefydlwyd Cymru fel ardal wasgaru. Ar ddiwedd Mai 2009, roedd cyfanswm o 2,322 o geiswyr lloches yn byw yng Nghymru. Roedd dros hanner (56.9%) yn byw yng Nghaerdydd, tra bod gan Abertawe 562 o geiswyr lloches (24.2%), Casnewydd 364 (15.7%), a Wrecsam gyda dim ond 74 (3.2%). Daw bron i dri chwarter (71.1%) y rhai a ddosbarthwyd i Gymru o naw gwlad tarddiad: Affganistan, China, Eritrea, Iran, Irac, Pacistan, Somalia, Y Swdan a Zimbabwe.

3. Mae tystiolaeth fod y boblogaeth o ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru yn wahanol i'r boblogaeth ehangach o ffoaduriaid yn y Deyrnas Unedig mewn rhai ffyrdd pwysig. Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches wedi eu crynhoi'n fwy mewn nifer gyfyngedig o drefi a dinasoedd ac maent yn dod o amrediad mwy cyfyngedig o genhedloedd a grwpiau ieithyddol. Awgryma tystiolaeth bresennol mai ychydig iawn o ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n dewis dod i Gymru'n benodol, ond ychydig a wyddom am lifoedd mudo eilaidd i ac o'r wlad.

4. Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad (LICC) ei *Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid* ym Mehefin 2008. Mae'r strategaeth yn sefydlu gweledigaeth LICC o gynnwys ffoaduriaid yng Nghymru ac mae'n ceisio cefnogi a galluogi ffoaduriaid i ailadeiladu eu bywydau a gwneud cyfraniad llawn i gymdeithas. Ar gyfer llunwyr polisi ac ymarferwyr sy'n gysylltiedig â'r broses o integreiddiad, mae'r diffyg gwybodaeth ar gefndir, anghenion a phrofiadau ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru yn broblem gan ei bod yn ei gwneud yn anodd darparu cefnogaeth a gwasanaethau priodol a harneisio sgiliau a phrofiadau ffoaduriaid.

Nodau ac amcanion yr arolwg

5. Mae'r arolwg hwn o ffoaduriaid yn byw yng Nghymru'n cynrychioli ymateb pragmatig i'r diffyg gwybodaeth sydd ar gael i hysbysu polisi ac ymarfer parthed integreiddiad ffoaduriaid a materion yn ymwneud â chydlyniad cymunedol. Dyfeisiwyd yr arolwg mewn ymgynghoriad â llunwyr polisi ac ymarfer ac mae wedi ei leoli yn y fframwaith ar gyfer meddwl am faterion integreiddiad sydd wedi eu datblygu gan Ager a Strang (2004). Mae'r fframwaith yn nodi nifer o 'ddynodwyr a moddau' allweddol ar gyfer cyrraedd a mesur y broses hon o integreiddiad.

6. Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfanswm o 74 cwestiwn (rhai caeedig a phen agored) a fwriadwyd i gipio gwybodaeth ar nodweddion demograffig ymatebwyr a'u hamgylchiadau a phrofiadau o fyw yng Nghymru, yn cynnwys parthed tai,

cefnogaeth, sgiliau, cymwysterau, cyflogaeth ac iechyd a lles. Roedd yno hefyd nifer o gwestiynau ar faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch yn cynnwys profiadau o hiliaeth a gwahaniaethu.

7. Fe gymrodd cyfanswm o 123 o ffoaduriaid ran mewn cyfweliadau ar gyfer yr arolwg a gynhaliwyd rhwng Awst a Medi 2008. Prif wledydd y rhai a gymrodd ran yn yr arolwg oedd Eritrea, Swdan, Irac, Somalia, Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo, Iran, Twrci, Algeria a Zimbabwe. Mae tua 70% o ymatebwyr yr arolwg yn 25-44 oed. Ceir cydbwysedd o ran ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd. Mae hanner yn disgrifio eu hunain fel Mwslemiaid, ac ychydig dan hanner (43.1%) fel Cristnogion, gyda chyfran lai o Sikhiaid, Bwdhyddion a Hindŵiaid. Cafodd cyfran sylweddol (44%) o'r ymatebwyr statws yn 2008, gydag un rhan o bump arall yn derbyn statws yn 2007. Mae hyn yn debygol o fod yn adlewyrchiad o 'clirio ôl-groniad' neu 'raglen etifeddol' y Swyddfa Gartref. Mae bron i hanner y rhai a gymrodd ran yn yr arolwg wedi bod yn byw yn y Deyrnas Unedig ers dros bum mlynedd ac mae traean wedi bod yn byw yng Nghymru am hanner y cyfnod hwnnw. Gwasgarwyd y rhan fwyaf i Gymru, ond fe symudodd deg o'r ymatebwyr (8.1%) i Gymru wedi derbyn statws ffoadur.

8. Ymdrechwyd i sicrhau fod ffoaduriaid o amrywiaeth eang o wledydd a chefndiroedd yn cymryd rhan. Oherwydd diffyg gwybodaeth llinell sylfaen, mae'n amhosibl gwybod p'un a yw'r ymatebwyr yn cynrychioli poblogaeth ffoaduriaid ehangach Cymru. Er bod cyfyngiadau i'r arolwg, mae serch hynny'n darparu gwybodaeth arwyddocaol newydd am brofiadau ffoaduriaid yn byw yng Nghymru, ac am ddulliau posibl o gasglu gwybodaeth yn y dyfodol.

Tai

9. Ystyrir fod tai yn gonglfaen i integreiddiad llwyddiannus ffoaduriaid. Mae cyfran sylweddol (89.4%) o ffoaduriaid a gymrodd rhan yn yr arolwg yn byw mewn llety wedi ei rentu, gyda'r cyngor neu awdurdod lleol yn landlord i ddau draean. Ychydig iawn o'r ffoaduriaid sy'n berchen ar eu heiddo eu hunain (4.1%). Nid oes gan rai o'r ffoaduriaid eu cartref eu hunain, ond maent yn aros gyda theulu neu ffrindiau, neu'n byw mewn llety dros dro neu hostel. Mae eraill fwy neu lai'n ddigartref. Gallai hyn fod o ganlyniad i'r gofyniad fod ganddynt 'gysylltiad gwirioneddol' gyda'r ardal maent yn byw ynddi er mwyn cael hawl i wasanaethau i'r digartref.

10. Er bod un o bob pump o'r ffoaduriaid wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw broblemau gyda'u llety, disgrifiodd y mwyafrif helaeth broblemau tai sylweddol yn cynnwys diffyg parhauster (36.6%), cyflwr eu llety (28.5%), dim digon o ystafelloedd (20.3%), problemau gyda chymdogion neu gymuned (14.6%), a'r gost (13%). Rhoddodd ymatebwyr sylwadau helaeth ar ansawdd eu llety, gyda nifer yn disgrifio problemau o ran cyflwr yr eiddo (yn fwyaf amlwg oedd lleithder, plâu o bryfed a llygod, ystafelloedd a charpedi budur a threfniadau byw, yn arbennig gorlenwi a diffyg preifatrwydd). Mynegwyd pryderon am agwedd ac ymddygiad preswylwyr eraill tuag atynt a'u plant hefyd.

Addysg a hyfforddiant

11. Mae addysg yn creu cyfleoedd sylweddol ar gyfer cyflogaeth a chysylltiadau cymdeithasol ehangach. Mae casgliadau'r arolwg yn gyffredinol gyson gydag astudiaethau blaenorol a ddaeth i'r casgliad fod gan ffoaduriaid fwy o gymwysterau na'u cyfoedion sy'n ddinasyddion o'r Deyrnas Unedig. Roedd gan dri chwarter ymatebwyr dystysgrif addysg ysgol uwchradd ac roedd gan 43.9% arall ddiploma. Roedd dros chwarter wedi derbyn gradd Prifysgol yn eu gwlad tarddiad gyda 8.9% pellach yn meddu ar gymhwyster ôl-raddedig.

12. Mae traean o'r rhai a arolygwyd wedi cael cymhwyster yn yr iaith Saesneg ac mae 13.8% wedi cael gradd Prifysgol neu gymhwyster ôl-raddedig (8.1% a 5.7% yn y drefn honno). Roedd dros draean yr ymatebwyr ar gyrsiau addysgol ar adeg cyflawni'r arolwg hwn.

13. Mae hanner yr holl ymatebwyr wedi cyflawni cyrsiau hyfforddiant ers cyrraedd y Deyrnas Unedig, yn cynnwys hyfforddiant wagen fforch godi, hylendid bwyd, TGCh, cymorth cyntaf, iechyd a diogelwch, cwnsela, homeopathi, arlwyo a gwaith-chwarae. Mae'r lefelau o hyfforddiant mae ffoaduriaid yng Nghymru yn cyflawni yn sylweddol uwch na'r hyn a adroddir mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

14. Disgrifiodd nifer o ffoaduriaid gychwyn – neu fod eisiau cychwyn – cyrsiau addysgiadol neu gyfleoedd hyfforddiant ond nad oeddynt yn gallu gwneud neu'n methu cwblhau eu hastudiaethau oherwydd afiechyd neu anawsterau gyda chyllid ac/neu ofal plant a chyfrifoldebau domestig.

Sgiliau Saesneg

15. Ceir cydnabyddiaeth gyffredinol o bwysigrwydd sgiliau ieithyddol Saesneg ar gyfer y broses o integreiddio ffoaduriaid. Adlewyrchir hyn yn y pwyslais mae'r Swyddfa Gartref a LICC yn rhoi ar ddarpariaeth hyfforddiant ieithyddol Saesneg (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill). Mae ymchwil blaenorol wedi dangos fod sgiliau iaith Saesneg a adroddir gan ffoaduriaid yn gyffredinol isel, ond fod y sgiliau hyn yn gwella'n sylweddol gydag amser. Mae casgliadau'r arolwg hwn yn cyd-fynd â'r casgliad hwn gan fwyaf.

16. Disgrifiodd tua thraean o'r ymatebwyr eu sgiliau iaith Saesneg fel 'gwael iawn' cyn cyrraedd gyda llai nag un o bob 10 (9.8%) yn ystyried fod eu sgiliau yn 'dda iawn'. Mewn cyferbyniad, roedd dau draean yn ystyried fod eu sgiliau Saesneg yn ystod cyfnod yr arolwg yn 'wael iawn'.

17. Er bod dau draean o ffoaduriaid yn dweud iddynt dderbyn rhywfaint o hyfforddiant Saesneg ffurfiol ers cyrraedd y Deyrnas Unedig, disgrifiodd nifer anawsterau o ran derbyn cefnogaeth briodol i wella eu sgiliau iaith. Roedd yr anawsterau hyn yn cynnwys priodoledd y lefel o hyfforddiant a ddarparwyd (fel arfer yn rhy hawdd), cyrsiau a gwersi/dosbarthiadau'n rhy fyr, diffyg gofal plant gyda phlant oedran ysgol i ofalu amdanynt. Soniodd nifer o'r ymatebwyr am y costau'n gysylltiedig â mynychu, yn arbennig pris tocyn bws.

Cyflogaeth a gwirfoddoli

18. Mae cyflogaeth yn darparu mecanwaith ar gyfer creu incwm a datblygiad economaidd ac, o ganlyniad, fe'i hystyrir i fod yn fecanwaith allweddol ar gyfer integreiddiad. Mae swyddi hefyd yn werthfawr o ran sefydlu rolau cymdeithasol gwerthfawr, datblygu gallu ieithyddol a chymdeithasol ehangach a sefydlu cysylltiadau cymdeithasol.

19. Dengys ymchwil fod ffoaduriaid yn profi lefel uchel o ddiweithdra a thangyflogaeth, er gwaethaf y ffaith fod nifer yn cyrraedd y Deyrnas Unedig gyda chymwysterau da a phrofiad gwaith blaenorol yng ngwlad eu tarddiad. Mae casgliadau'r arolwg hwn yn cadarnhau fod hyn hefyd yn wir yng Nghymru. Er bod bron i ddau draean o'r ymatebwyr wedi eu cyflogi mewn amrywiaeth o broffesiynau cyn dod i'r Deyrnas Unedig, roedd gan lai na thraean (31.7%) swydd pan gyflawnwyd yr arolwg hwn. O'r ffoaduriaid oedd wedi eu cyflogi, roedd y rhan fwyaf mewn swyddi gweinyddol neu glerigol, gwaith glanhau neu ffatri. Nid oedd bron i hanner y rhai a gyflogir yn teimlo fod eu swydd yn briodol o ran eu cymwysterau, sgiliau a phrofiad.

20. Nododd nifer o ffoaduriaid eu bod wedi wynebu hiliaeth a gwahaniaethu wrth ddod o hyd i gyflogaeth a'u profiadau yn y gweithle. Mynegwyd materion yn ymwneud â lliw croen, crefydd a rheolau gwisg (yn arbennig penwisg) fel achosion gwahaniaethu. Mae nifer o'r ymatebwyr y credu nad ydynt yn cael eu dewis am gyfweliadau am nad oes ganddynt enw Saesneg (neu Gymraeg).

21. Credir fod gwirfoddoli yn llwybr pwysig posibl i gyflogaeth ar gyfer nifer o ffoaduriaid, gan y gall o leiaf roi cyfle i ffoaduriaid ennill profiad gwaith yn y Deyrnas Unedig, caffael neu ddatblygu sgiliau a sicrhau geirda o'r Deyrnas Unedig. Er bod ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru yn gyffredinol wedi eu tangyflogi neu'n ddi-waith, mae dros hanner (57.7%) wedi bod yn gysylltiedig â gwaith gwirfoddol ers cyrraedd. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r 29% sy'n gysylltiedig â gwaith gwirfoddol mewn ymchwil cynharach ledled y Deyrnas Unedig, ond ychydig yn is nag ar gyfer y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru a Lloegr.

22. Gallai lefelau is o wirfoddoli adlewyrchu nifer o ffactorau. Dywedodd tua chwarter ymatebwyr yr arolwg eu bod yn ei chael yn anodd cael mynediad i wirfoddoli. Y prif reswm a roddwyd oedd diffyg gwybodaeth am gyfleoedd i wirfoddoli. Mae'r broblem yn fwy ar gyfer y rhai sydd newydd gyrraedd ac sydd â sgiliau Saesneg cyfyngedig.

Iechyd a lles

23. Mae casglu gwybodaeth gan grwpiau poblogaeth ar iechyd a lles yn anodd iawn, ac mae cyfyngiadau sylweddol i fethodoleg arolwg ar y math o gwestiynau a materion y gellir eu harchwilio. Fodd bynnag, mae'r arolwg yn darparu rhywfaint o wybodaeth sylfaenol am iechyd meddyliol a chorfforol ffoaduriaid s'yn bwy yng Nghymru.

24. Mae'r ffoaduriaid a fu'n cymryd rhan yn yr arolwg yn ystyried fod eu hiechyd corfforol yn gyffredinol well na chyn iddynt gyrraedd y Deyrnas Unedig. Roedd dwywaith cymaint o ymatebwyr yn ystyried fod eu hiechyd meddyliol yn dda ers

iddynt gyrraedd o gymharu â'n flaenorol. Mae'n werth nodi fod y gyfran o ymatebwyr sy'n ystyried fod eu hiechyd meddyliol yn y Deyrnas Unedig yn 'wael' yn debyg i'r gyfran cyn cyrraedd. Yn ogystal, nododd cyfran sylweddol o ymatebwyr eu bod yn teimlo fod eu hiechyd corfforol a meddyliol wedi gwaethygu ers iddynt gyrraedd y Deyrnas Unedig (22.8% a 38.2% yn y drefn honno).

25. Mae bron i bob un o'r disgrifiadau o ddirywiad mewn iechyd meddyliol a chorfforol ers cyrraedd y Deyrnas Unedig yn ymwneud â gofid, straen, iselder ac unigedd sy'n gysylltiedig â bod yn ffoadur, y broses lloches a gwahanu o'r cartref a theulu. Mae rhywfaint o dystiolaeth y gwaethygir problemau iechyd meddwl o ganlyniad i sefyllfaoedd tai a chyflogaeth mae nifer o ffoaduriaid yn profi.

26. Roedd traean yr ymatebwyr yn derbyn triniaeth feddygol pan gyflawnwyd yr arolwg, yn fwyaf nodedig, triniaeth ar gyfer iselder ar ffurf tabledi gwrth iselder ac/neu gynghori. Disgrifiodd bron i chwarter anawsterau o ran cael mynediad i driniaeth feddygol yn cynnwys anawsterau ac oedi wrth sicrhau apwyntiad gyda meddyg teulu, deintydd ac ymgynghorwyr ysbytai, a hyd amserau aros am apwyntiadau, yn arbennig gydag ymgynghorwyr.

Hiliaeth a gwahaniaethu

27. Mae'r broses o integreiddio yn ymwneud â mwy na darparu mynediad i wasanaethau neu'r farchnad lafur yn unig: mae hefyd yn ymwneud â sut mae cymunedau'n gweithio o ddydd i ddydd, p'un a yw unigolion yn teimlo'n ddiogel a sut maent yn ymwneud â'i gilydd.

28. Mae hanner yr holl ffoaduriaid a gymrodd ran yn yr arolwg hwn wedi profi agweddau negyddol a hiliaeth gan y cyhoedd wrth fyw yng Nghymru. Mae'r ystadegau hyn yn sylweddol uwch na chasgliadau arolwg diweddar a gyflawnwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer poblogaeth Cymru'n gyffredinol.

29. Disgrifiodd ymatebwyr yr arolwg nifer sylweddol o ddigwyddiadau, gyda thipyn yn cynnwys ymosodiadau llafar a chorfforol, yn aml gan blant yn eu harddegau a phobl ifanc. Adroddwyd cryn dipyn o ddifrod i eiddo hefyd. Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at wahaniaethu yn y gweithle ac wrth ddelio ag asiantaethau a darparwyr gwasanaeth, yn cynnwys yr heddlu. Ymddengys na adroddir nifer o ddigwyddiadau hiliol o ganlyniad i bryderon am yr oblygiadau. Mae nifer hefyd yn teimlo nad yw'r heddlu, darparwyr tai a'r UKBA yn delio'n dda ag achosion a adroddir.

30. Mae traean y rhai a gymrodd ran yn teimlo y gwahaniaethir yn eu herbyn oherwydd lliw eu croen, tarddiad ethnig neu grefydd. mae hyn dair gwaith yn uwch na chasgliad yr arolwg *Byw yng Nghymru* diweddaraf. Nodir fod gwahaniaethau gweledol, yn arbennig penwisgoedd, yn achosi problemau penodol.

31. Gofynnwyd i'r ffoaduriaid am eu teimladau am ddiogelwch yn y lle maent yn byw. Daeth y cwestiynau hyn yn bennaf o Arolwg Troseddu Prydain gyda'r bwriad o allu cymharu ymatebion ffoaduriaid yn byw yng Nghymru gydag ymatebion y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru a Lloegr. Mae casgliadau'r arolwg yn cyd-fynd â rhai'r boblogaeth gyffredinol gan fwyaf.

32. Mae'r arolwg yn archwilio teimladau a pherthynas tuag at y gymdogaeth neu ardal ble mae'r ffoaduriaid yn byw a'u cyfraniad neu beidio tuag at sefydliadau lleol. Yr agwedd bwysicaf y mae'n werth ei nodi yw'r ffaith fod y rhan fwyaf (61.8%) o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r datganid 'Rwy'n teimlo fy mod yn perthyn i'r gymdogaeth'. Mae dros ddau draean o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r datganiad 'Byddwn yn barod i gydweithio gydag eraill ar rywbeth i wella fy nghymdogaeth'.

33. Awgrymodd bron i bob un o'r ymatebwyr eu bod yn aelodau o un sefydliad neu grŵp neu fwy, ond mae eu haelodaeth yn amrywio'n sylweddol, ac felly hefyd eu lefelau o gymryd rhan. Mae bron i hanner y rhai a fu'n cymryd rhan yn yr arolwg yn aelodau o grwpiau cymuned ffoaduriaid neu genedlaethol/ethnig. Mae cyfran debyg (45.2%) hefyd yn perthyn i grŵp crefyddol neu sefydliad ffydd. Dyma oedd y grwpiau mwyaf o ran aelodaeth.

34. Dywedodd dros dri chwarter yr ymatebwyr eu bod yn bwriadu aros yng Nghymru. Y prif resymau a nodwyd gan ymatebwyr dros fod eisiau aros yng Nghymru yw cymuned/cymdogion (43%), yna teulu a ffrindiau, agweddau'r cyhoedd, cyflogaeth, ac addysg plant. Mae rhesymau eraill yn cynnwys 'teimlo wedi setlo', byw ger y môr, a'r gefnogaeth a geir gan yr eglwys a'r sector wirfoddol.

35. Er bod y rhan fwyaf o'r ffoaduriaid wedi nodi eu bod yn bwriadu aros yng Nghymru, dywedodd un o bob pump ei bod yn bosibl y byddant yn gadael. Rhoddwyd nifer o resymau, ond y prif reswm oedd awydd i fod yn agos at deulu, ffrindiau ac aelodau o'r gymuned yn byw mewn man arall, dehongliad fod diffyg amrywiaeth yng Nghymru a adlewyrchir ar adegau yn agweddau negyddol ac/neu hiliaeth y cyhoedd, problemau gyda thai, ac anawsterau o ran cael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth priodol.

36. Mae gwrthddweud rhwng disgrifiadau ffoaduriaid o'u profiadau dydd i ddydd o hiliaeth a'r sylwadau a wnaed gan nifer parthed eu teimladau am fyw yng Nghymru. Ymysg y rhai a nododd eu bod yn bwriadu aros yng Nghymru, nodwyd cymuned a chymdogion fel y rheswm unigol pwysicaf o blaid. Ymddengys y byddai hyn yn awgrymu fod ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru yn cael profiadau positif a negyddol yn eu cymdogaeth agos.

Goblygiadau polisi

37. Mae'r arolwg yn darparu gwybodaeth newydd bwysig am sgiliau, anghenion a phrofiadau ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru. Mae nifer o brif gasgliadau'r ymchwil hwn yn cyd-fynd â'r hyn sydd eisoes yn wyddys am brofiadau ffoaduriaid yn byw mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

38. Mae'r arolwg yn nodi nifer o rwystrau posibl i gynhwysiant ym meysydd tai, addysg a hyfforddiant, cyflogaeth a hiliaeth a gwahaniaethu. Awgryma'r rhwystrau hyn y dylai polisïau yn y dyfodol ei gwneud yn flaenoriaeth i geisio:

- taclo llety israddol a sicrhau nad yw ffoaduriaid yn effeithiol ddigartref;
- delio gyda rhwystrau penodol o ran cael mynediad at gyrsiau hyfforddiant iaith Saesneg priodol;

- cael gwared ar rwystrau i addysg a hyfforddiant;
- cynyddu mynediad at wirfoddoli, yn arbennig tu allan i'r sector ffoaduriaid;
- lleihau hiliaeth a gwahaniaethu wrth ddod o hyd i gyflogaeth ac yn y gweithle; a
- gwella adrodd o, ac ymateb i, achosion hiliol.

Ymchwil yn y dyfodol

39. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymroddedig i bolisïau yn seiliedig ar dystiolaeth ac i fonitro a gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei bolisïau. Bydd y diffyg gwybodaeth systematig ar sgiliau a phrofiadau ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru yn ei gwneud yn anoddach i gyflawni'r amcan hwn parthed y *Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid*.

40. Mae cwmpas i wella casglu gwybodaeth ar sgiliau a phrofiadau ffoaduriaid yn byw yng Nghymru yn seiliedig ar yr arddull arolwg a ddatblygwyd ac a brofwyd yn yr ymchwil hwn. Mae'r arolwg yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar y strategaethau mwyaf effeithiol y gellid eu dilyn i wella ansawdd a faint o wybodaeth sydd ar gael.

41. Dylid ystyried nifer o faterion pwysig sydd wedi eu trafod yn yr ymchwil hwn mewn unrhyw ymdrechion yn y dyfodol i gyflawni ymchwil gyda ffoaduriaid yn byw yng Nghymru. Mae'r rhain yn ymwneud â maint ac amlder unrhyw waith arolwg, y technegau y gellid eu defnyddio i sicrhau y cynhwysir y detholiad llawn o gefndiroedd a phrofiadau ffoaduriaid, a strategaethau ar gyfer gwella mynediad i a lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â gwaith arolwg. O ystyried nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn gwahaniaethu rhwng ceiswyr lloches a ffoaduriaid wrth ddarparu nifer o wasanaethau, dylid ystyried cynnwys ceiswyr lloches yn unrhyw ymchwil yn y dyfodol sy'n ceisio nodi sgiliau, anghenion a phrofiadau'r rhai sy'n byw yng Nghymru.